**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

15 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

**Adolygiad Annibynnol o Dreth Trafodiadau Tir - Adroddiad**

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Mae hyn yn unol â'r rhwymedigaeth statudol a nodir yn adran 77 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd Alma Economics ym mis Mawrth 2022 i gynnal yr adolygiad annibynnol.

Bydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor bod Alma Economics wedi cwblhau'r adolygiad a bod ei adroddiad wedi ei gyhoeddi heddiw ar wefan llyw.cymru. Canolbwyntiodd gwmpas yr adolygiad ar newidiadau sylweddol a wnaed i'r ddeddfwriaeth o gymharu â'r dreth flaenorol (treth dir y dreth stamp) er mwyn sicrhau bod y newidiadau hynny'n briodol i Gymru o hyd. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Y newidiadau a wnaed i'r Dreth Trafodiadau Tir (o gymharu â threth dir y dreth stamp) ac a ydynt wedi cyflawni gwelliannau
- A yw'r newidiadau'n gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy priodol i Gymru ai peidio
- Nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau
- Ystyried materion ymarferol o ran gweithredu
- Effaith absenoldeb y rhyddhad i brynwyr tro cyntaf yng Nghymru ar fynediad at berchnogaeth tai

Rwyf yn atodi copi o'r adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol. Bydd y casgliadau a'r argymhellion sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad yn llywio datblygiad y Dreth Trafodiadau Tir yn y dyfodol.

Mae cynrychiolwyr o Alma Economics wedi nodi y byddent ar gael i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, pe bai hynny'n ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.